Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
68/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
14/11/2017

# Adolygiad o'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ebrill 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu York Consulting LLP i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (y Lwfansau).

1.2 Lwfansau heb brawf moddion yw'r Lwfansau hyn, sydd ar gael i fyfyrwyr ag anabledd, cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol. Mae'r Lwfansau yn gyllid ychwanegol sydd ar gael i fyfyrwyr na fyddai efallai wedi gallu dilyn cwrs addysg uwch hebddynt, ac na fyddent wedi cyrraedd eu llawn botensial.

1.3 Amcanion yr astudiaeth oedd:

- adolygu'r ddarpariaeth o'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl a'r trefniadau ar gyfer darparu cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr ar gyrsiau addysg uwch penodol sydd ag anabledd, cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl, cyflwr ar y sbectrwm awtistig neu anawsterau dysgu penodol
- datblygu ac ystyried dewisiadau ar gyfer gwella'r trefniadau presennol.

### 2. Dull

- Fe wnaeth yr astudiaeth fabwysiadu dull amlfodd, gan gynnwys data meintiol a data ansoddol. Roedd elfennau allweddol o'r astudiaeth yn cynnwys:
- dadansoddiad o ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC)
- ymgynghori â 12 o wasanaethau cymorth i fyfyrwyr o fewn darparwyr addysg uwch, gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru, dau goleg addysg bellach yn darparu addysg uwch a dau ddarparwr addysg uwch yn Lloegr. Roedd y cyfweliadau'n cynnwys rhai gyda phenaethiaid gwasanaethau cymorth anabledd, ymgynghorwyr anabledd, aseswyr anghenion, darparwyr cymorth anfeddygol a darparwyr technoleg cynorthwyol.
- cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda 41 o fyfyrwyr sy'n derbyn y Lwfansau yng Nghymru a Lloegr.
- arolwg ar-lein o fyfyrwyr a ariennir yng Nghymru fel rhan o arolwg blynyddol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o fyfyrwyr sy'n derbyn y Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl.

- cyfweliadau rhanddeiliaid ag arweinwyr polisi llywodraeth ledled y Deyrnas Unedig, arbenigwyr proffesiynol ac elusennau, gan gynnwys dau fforwm Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl sy'n gweithredu yng ngogledd a de Cymru
- adolygiad o lenyddiaeth i roi cyd-destun i'r arolwg.

## 3. Cyd-destun

3.1 Yn y flwyddyn academaidd 2015/16, fe wnaeth Lloegr gyflwyno nifer o newidiadau i'r hawl am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl er mwyn moderneiddio'r dull o weithredu a sicrhau ei fod yn gost-effeithiol. Roedd hyn yn ymgais i ail-gydbwyso'r cyfrifoldeb dros fyfyrwyr anabl trwy sicrhau bod darparwyr addysg uwch yn datblygu eu harferion dysgu cynhwysol ac yn cynnig addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion pob myfyriwr, gan gynnwys y rheini ag anabledd. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried y newidiadau a chomisiynu'r adolygiad hwn i helpu arwain cyfeiriad y polisi ar y Lwfansau.

3.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob darparwr addysg, gan gynnwys darparwyr addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a Lloegr wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw myfyrwyr ag anableddau yn cael eu trin yn anffafriol o gymharu â myfyrwyr eraill. Mae'r rhan a chwaraeir gan ddarparwyr addysg uwch wrth gefnogi myfyrwyr ag anableddau yn esblygu[1] a'r ffordd orau o'i ystyried yw fel gwaith sy'n datblygu. Yn ôl rhanddeiliaid gwybodus, cymysg yw'r datblygiadau i wreiddio arferion dysgu cynhwysol mewn darparwyr addysg uwch ledled y Deyrnas Unedig.

3.3 Mae lefel y buddsoddiad sydd ei angen i ddatblygu arferion dysgu cynhwysol o fewn darparwyr addysg uwch yn sylweddol. Roedd panel o arbenigwyr a sefydlwyd i adolygu'r cyllid addysg uwch a'r trefniadau cyllid i fyfyrwyr yng Nghymru[2], sy'n cael ei adnabod fel Adolygiad Diamond, yn cytuno bod angen i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gael cyllid heb ei neilltuo[3] i sicrhau newid mewn nifer o feysydd, gan gynnwys agweddau cymdeithasol o ledaenu mynediad i fyfyrwyr ag anableddau.

3.4 Mae'r model o gymorth i fyfyrwyr ag anableddau yn esblygu'n barhaus, ond ar hyn o bryd, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y Lwfansau yn elfen hanfodol o gymorth i fyfyrwyr unigol sydd ag anghenion cymhleth a dwys. Y ffordd orau o ystyried model addas o gymorth i fyfyrwyr ag anableddau felly, yw fel model cymysg sy'n cynnwys dysgu cynhwysol, addasiadau rhesymol a Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl.

## 4. Canfyddiadau Allweddol

### Ymwybyddiaeth o'r Lwfansau

4.1 Mae data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn dangos bwlch o 7.4 y cant rhwng y myfyrwyr hynny sy'n datgan anabledd a'r rheini a dderbyniodd y Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl am y flwyddyn academaidd 2015/16. Daeth llawer o fyfyrwyr i'r brifysgol heb wneud cais am y Lwfansau yn gyntaf. Er bod prifysgolion wedi gwneud gwaith sylweddol i godi ymwybyddiaeth o'r hawl a'r cymorth cyffredinol, teimlai timau anabledd a myfyrwyr eu hunain mai tameidiog oedd yr wybodaeth o'r Lwfansau mewn ysgolion a cholegau. Gall cyflwyno'r Cynllun Datblygu Unigol fel rhan o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol fynd ran o'r ffordd tuag at wella parhad cymorth, er bod llawer o fyfyrwyr nad ydynt yn sylweddoli bod ganddynt anabledd hyd nes maent ran o'r ffordd trwy eu cwrs addysg uwch.

---

[1] Adran Addysg Lloegr (Ionawr 2017) Inclusive Teaching and Learning in Higher Education as a route to Excellence. Cyfeirnod: DFE-00044-2017.
[2] Adolygiad Trefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, (2016) Adolygiad annibynnol.
[3] Cyllid a dyrennir heb gyfyngiadau ar sut y dylid ei wario. http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/qg09-0010.pdf%20-%2027042010/qg09-0010-English.pdf (Gwelwyd 03/07/17)

**Y broses ymgeisio**

4.2 Er i arolwg y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ddangos bod 70 y cant yn hapus gyda'r broses, roedd ymarferwyr a holwyd (penaethiaid gwasanaethau cymorth anabledd, ymgynghorwyr anabledd, darparwyr cymorth anfeddygol a thechnoleg cynorthwyol) yn negyddol eu barn ynghylch y drefn o ymgeisio a dyfarnu'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl, gan ddweud ei bod yn rhy gymhleth, tameidiog ac yn rhoi gormod o gyfrifoldeb ar y myfyriwr i arwain eu hunain drwyddi. Mae'r broses yn ymddangos yn arbennig o anodd i fyfyrwyr ag anawsterau dysgu penodol, Cyflwr Sbectrwm Awtistig, anhwylder gorbryder, nam ar y golwg a'r rheini â chyflyrau meddygol dwys fel myalgic encephalomyelitis neu fibromyalgia. Roedd yn ymddangos bod myfyrwyr y Brifysgol Agored o dan anfantais benodol gan fod ganddynt lai o gyswllt â gwasanaethau cymorth anabledd. Mae'r corff ariannu myfyrwyr yn Lloegr, Student Finance England (SFE) yn darparu canllawiau ar-lein hawdd eu dilyn drwy'r broses. Mae gwe-dudalennau Cyllid Myfyrwyr Cymru yn fwy manwl a chymhleth i fyfyrwyr ag anableddau edrych arnynt.

4.3 Soniodd rhai myfyrwyr sydd â phryderon iechyd meddwl a chyflyrau meddygol llai cyffredin am anhawster wrth gael y dystiolaeth feddygol addas. Roedd y ffurflen gais ei hun yn rhwystr i lawer o fyfyrwyr â nam ar y golwg ac roedd pryderon ynghylch y nifer o geisiadau a oedd yn cael eu rhoi o'r neilltu dros dro hyd nes oedd y myfyriwr yn darparu tystiolaeth ychwanegol neu'n ymdrin ag ymholiadau.

4.4 Codwyd pryderon penodol gan ymarferwyr ynghylch y llythyr cymhwysedd (DSA1) a'r llythyr hawl (DSA2) a oedd yn ymwneud â gallu cynghorwyr anabledd i gefnogi myfyrwyr trwy'r broses. Yn ogystal, fe wnaeth darparwyr gwasanaethau, a argymhellwyd gan Gyllid Myfyrwyr Cymru i gyflwyno cymorth i'r myfyriwr, fynegi rhwystredigaeth ynghylch peidio â derbyn hysbysiad o hyn yn uniongyrchol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Roedd timau anabledd mor ragweithiol â phosibl ac yn ceisio helpu myfyrwyr i adnabod eu ffordd trwy'r broses ond, yn ôl ymarferwyr, mae'r system yn dameidiog ac mae llawer o fyfyrwyr yn profi oedi wrth gael at gymorth.

**Asesiadau o anghenion a hawliau**

4.5 Roedd y cynnydd yn y nifer o ganolfannau asesu anghenion yn achos cyffredinol o bryder. Er yn fwy perthnasol i Loegr, roedd pryder ymysg nifer bach o randdeiliaid, gan gynnwys y Rhwydwaith Cenedlaethol o Ganolfannau Asesu nad yw canolfannau allgyrraedd yn cael eu harchwilio gan Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA-QAG) yn ôl yr un meini prawf â'r prif ganolfannau asesu ac y gallai ansawdd asesiadau anghenion ddechrau amrywio. Er nad oedd unrhyw dystiolaeth o hyn yng Nghymru, roedd tystiolaeth o fyfyrwyr yn profi anawsterau oherwydd nad oedd aseswyr anghenion yn llawn ddeall y cyd-destun dysgu. Roedd myfyrwyr a oedd yn dewis canolfan asesu o restr y Grŵp Sicrhau Ansawdd o gyflenwyr cymeradwy yn aml yn dewis y rheini a oedd agosaf at eu cartref. Wrth edrych yn ôl, dywedodd nifer bach o fyfyrwyr a gyfwelwyd y byddai'n dda ganddynt pe baent wedi dewis yr asesydd anghenion yn eu lleoliad addysg uwch. Roedd pryderon ynghylch costau uwch asesiadau anghenion a gyflawnwyd y tu allan i ddarpariaethau addysg uwch ac roedd barn gyffredinol y dylid cyflawni asesiadau anghenion o fewn amgylchedd y ddarpariaeth addysg uwch. Tynnwyd sylw penodol at fyfyrwyr y Brifysgol Agored fel grŵp neilltuol o fregus o fyfyrwyr sy'n aml ag anghenion uwch ac nad ydynt bellach yn derbyn asesiad anghenion yn awtomatig gartref. Roedd cyfweliadau â nifer bach o fyfyrwyr y Brifysgol Agored yn dangos eu hanfantais.

4.6 Yn yr Alban, cyflawnir pob asesiad anghenion gan ganolfan fynediad y prifysgolion neu golegau. Dywedodd rhanddeiliaid yn yr Alban fod hyn yn ddull mwy ffafriol o asesu anghenion myfyrwyr gan fod cynnwys y cwrs ac addasiadau rhesymol a wnaed gan y darparwr addysg uwch yn cael eu deall yn llawnach gan yr asesydd anghenion. Yn ogystal, roedd y ddarpariaeth o asesiadau anghenion yn fwy cost effeithiol, ar gyfartaledd cost o £495 yr asesiad yn yr Alban o gymharu â £650 yng Nghymru a Lloegr.

### Effaith newidiadau SFE yn Lloegr

4.7 Roedd y gwahaniaeth mewn cyllid rhwng SFE a Chyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer rolau Band Un a Band Dau yn bryder i sefydliadau addysg uwch Cymru ac i aseswyr anghenion. Mae diddymu'r Lwfansau i fyfyrwyr SFE, yn ôl yr aseswyr anghenion, wedi lleihau natur cyfannol yr asesiad ac wedi arwain at ansicrwydd ynghylch y cymorth mae myfyrwyr yn ei dderbyn. Nid oedd unrhyw gefnogaeth gan ymarferwyr Cymru i ddilyn newidiadau Lloegr. Mynegwyd pryderon gan ymarferwyr y gellid gosod gormod o gyfrifoldeb ar y myfyriwr i drafod eu cymorth rhwng darpariaeth y Lwfansau a'r hyn a ddarperir trwy'r gwasanaeth anabledd.

4.8 Ychydig iawn o gefnogaeth a roddodd ymarferwyr yng Nghymru i'r syniad o gyfraniad gan fyfyrwyr at gost cyfrifiadur. Yn ôl yr aseswyr anghenion a'r cynghorwyr anabledd mae llawer o amgylchiadau sy'n ei gwneud yn anodd i fyfyrwyr gael at gyfrifiaduron ffynhonnell agored. Dywedodd fod un darparwr gwasanaethau technegol cynorthwyol yn Lloegr fod dros 650 o fyfyrwyr wedi gohirio prynu eu hoffer oherwydd pryderon fforddiadwyedd.

### Darparu cymorth y Lwfansau

4.9 Mae'r model ar gyfer cymorth anfeddygol a ariennir gan y Lwfansau yn seiliedig ar bob darparwr cymorth anfeddygol yn cael ei ddewis fel y darparwr a ffefrir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i gyflwyno cymorth yn uniongyrchol i'r myfyriwr. Yng Nghymru, mae hyn yn fwy tebygol o fod yn wasanaethau anabledd eu sefydliad addysg uwch sy'n contractio gwasanaethau gydag un neu fwy o ddarparwyr proffesiynol cymorth anfeddygol sydd wedyn yn cyflwyno cymorth 'yn fewnol'. Mae hyn yn galluogi i gymorth gael ei addasu i anghenion myfyrwyr unigol ac i ymarferwyr weithio ar y cyd o amgylch y myfyriwr. Dyma'r dewis a ffefrir ac fe'i ffefrir yn hytrach na model Lloegr lle nodir dau ddarparwr o restr a'r rhataf yn cael ei ddewis gan SFE. Ym model Lloegr, roedd pryderon ynghylch effaith cyffredinol ansawdd y cymorth.

4.10 Isel oedd y graddau o hyder ymysg llawer o ymarferwyr Cymru yng Ngrŵp Sicrhau Ansawdd y Lwfansau wrth sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a'r effaith posibl ar y gallu i gyflawni rhai rolau (ee mentoriaid arbenigol). Er nad yw'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i ddarparwyr cymorth anfeddygol fod wedi eu cofrestru gyda'r Grŵp Sicrhau Ansawdd, mae'n ofynnol i ymarferwyr sy'n gweithio yng Nghymru weithredu yn ôl safonau achredu Lloegr wrth gefnogi myfyrwyr a ariennir gan SFE.

4.11 Mae'r drefn yn yr Alban lle caiff darparwyr cymorth anfeddygol eu cyflogi'n uniongyrchol yn aml gan y darparwr addysg uwch yn ymddangos yn ddull symlach o gyflwyno cymorth ac, yn ôl rhanddeiliaid yn yr Alban, mae'n drefn fwy ffafriol na'r un sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Yn ôl darparwr addysg uwch yn yr Alban, mae'r berthynas fwy cyson rhwng timau anabledd a darparwyr cymorth anfeddygol yn helpu sicrhau ansawdd dda o ran darpariaeth, perthynas o ymddiriedaeth ac ymateb wedi'i dargedu'n dda at anghenion dysgwyr.

4.12 Roedd darparwyr gwasanaethau technegol cynorthwyol yr ymgynghorwyd â hwy trwy gyfweliadau un i un yn mynegi pryderon gyda'r system tri-dyfynbris a'u gallu i ddarparu gwasanaethau i Gyllid Myfyrwyr Cymru heb gyflwyno model busnes i fusnes yn ogystal. Mae lleihad wedi bod yn y nifer o ddarparwyr gwasanaethau technegol cynorthwyol ledled y Deyrnas Unedig o 21 i 10[4] dros y 18-24 mis diwethaf oherwydd mae cyflenwyr wedi ei chael yn anodd gwneud i'r busnes weithio. Roedd llawer o sylwadau gan fyfyrwyr yng Nghymru'n dangos gwasanaeth a oedd yn is na'r disgwyliadau. Roedd myfyrwyr Cymru, wrth ymgynghori â hwy mewn cyfweliadau un i un a grwpiau ffocws, yn mynegi pryderon oherwydd bod darparwyr y gwasanaethau hyn wedi eu lleol yn Lloegr a bod hyn yn achosi oedi wrth dderbyn neu atgyweirio offer.

4.13 Mae myfyrwyr sy'n dymuno derbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu cael

[4] Ffigur diwygiedig a ddarparwyd gan Grŵp Sicrhau Ansawdd y Lwfansau - Mawrth 2018

hynny. Dywedodd darparwyr addysg uwch bod ganddynt y gallu digonol ar hyn o bryd i gyflwyno'r cymorth hwn. Fodd bynnag, rhoddwyd hanes gwasanaethau'n cael eu diddymu gan un darparwr addysg uwch a arferai gael ei ddarpariaeth gwasanaethau technegol cynorthwyol ei hun ac a allai osod cyfrifiaduron a hyfforddi myfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg, ond na allai gystadlu ar bris gyda darparwyr eraill y tu allan i Gymru ac, felly, daeth â'i wasanaeth i ben. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o brinder mewn meddalwedd a all weithio gyda'r Gymraeg i'r un graddau â meddalwedd Saesneg.

**Manteision cymorth**

4.14 Dengys data arolwg y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr fod y mwyafrif o fyfyrwyr (mwy na thri o bob pump) yn cytuno na fyddent, heb gymorth y Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl, wedi gallu cwblhau ymrwymiadau eu hastudiaethau. Cytunai'r mwyafrif o fyfyrwyr (mwy na phedwar o bob pump) fod cymorth y Lwfansau wedi cael effaith cadarnhaol sylweddol ar eu perfformiad cyffredinol. Roedd ymarferwyr cymorth anfeddygol, mewn llawer o achosion, wedi gwella lefelau hyder myfyrwyr a chynyddu eu gallu i weithio'n fwy annibynnol. Roedd myfyrwyr yn cydnabod bod eu perfformiad wedi gwella ac, oherwydd ehanger y cymorth a dderbyniwyd, yn credu eu bod yn cyrraedd eu gwir botensial.

4.15 Roedd myfyrwyr wedi cael at amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys cyfrifiaduron gyda thechnoleg cynorthwyol ac wedi defnyddio meddalweddi i'w helpu i drefnu eu meddyliau, cynllunio eu gwaith a chyflwyno eu syniadau mewn fformat ysgrifenedig. Roedd y lwfans cyffredinol wedi cael ei ddefnyddio gan rai myfyrwyr ar gyfer cetris inc a phapur arbenigol.

## 5. Casgliadau

5.1 Yn ôl pawb o'r ymarferwyr, mae proses ymgeisio a dyfarnu'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn rhy gymhleth ac yn cymryd gormod o amser. Mae'r graddau y caiff pryderon eu hadrodd gan bawb o'r ymarferwyr yn awgrymu bod y broblem yn un wirioneddol a bod cyfleoedd i wella'r gwasanaeth. Mae'r drefn sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru yn fwy hyblyg na'r un yn Lloegr ac, yn ôl ymarferwyr, mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gweithredu fersiwn 'mwy cyfeillgar' o'r model, gan gymryd penderfyniadau pragmataidd lle bo'n bosibl i ddatrys pryderon. Fodd bynnag, mae rhwystredigaethau gyda'r model cyflwyno yn parhau yng Nghymru yn ogystal.

5.2 Roedd tystiolaeth o gyfweliadau gydag ymarferwyr yng Nghymru ac yn Lloegr ac o gyfweliadau gyda myfyrwyr yn astudio yng Nghymru, yn dangos mai po fwyaf y mae cymorth y Lwfansau wedi eu hintegreiddio â thimau anabledd darparwyr addysg uwch, y mwyaf cyson a di-dor yw'r cymorth a ddarperir i'r myfyriwr. Y ffordd orau i ddeall cymorth i fyfyrwyr ag anableddau yw fel system dair-haen yn cynnwys strategaethau dysgu cynhwysfawr, addasiadau rhesymol a'r Lwfansau. Fodd bynnag, ymddengys mai darlun cymysg iawn sydd gennym o ddarparwyr addysg uwch o ran cynnydd mewn gwreiddio arferion dysgu cynhwysfawr. Yn Lloegr, roedd peth tystiolaeth fod cael gwared ar gymorth Band Un a Band Dau wedi bod yn gatalydd am newid. Fodd bynnag, roedd darparwyr addysg uwch yn Lloegr yn cydnabod bod arnynt angen cryn dipyn o amser i weithredu newidiadau o fewn eu sefydliad. O'r herwydd, deil y Lwfansau i fod yn ffurf hanfodol o gymorth i fyfyrwyr sy'n dilyn addysg uwch. Cynigir argymhellion i'w hystyried er mwyn helpu gwella'r graddau mae myfyrwyr yn eu derbyn ac i sicrhau model cymorth effeithiol ac effeithlon i fyfyrwyr.

## 6. Sylwadau i Gloi

6.1 Fe wnaeth yr adroddiad hwn gyflwyno tystiolaeth, a gafwyd yn bennaf gan ymarferwyr a myfyrwyr, o'u profiadau a'u barn ar y broses bresennol ar gyfer gweithio Lwfansau i

Fyfyrwyr Anabl yng Nghymru. Roedd llawer o'r myfyrwyr yn adrodd profiad cadarnhaol ac yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth a gafwyd. Ni fynegwyd fawr o bryderon yn uniongyrchol am bolisi Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl Cymru, yn bennaf oherwydd nad yw Cymru wedi dilyn Lloegr a gweithredu newidiadau tebyg a oedd yn lleihau'r hawl. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau a amlinellir uchod yn awgrymu bod pryderon gwirioneddol gyda sut y caiff y Lwfansau eu gweinyddu a'r cyfeiriad y maent yn mynd iddo, yn enwedig yn Lloegr gyda'r ddarpariaeth yn mynd yn fwy marchnatol ei naws ac effaith y newidiadau polisi yn Lloegr. Felly, mae'r adolygiad hwn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ystyried ai'r drefn bresennol o gyflwyno Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yng Nghymru, a etifeddwyd oddi wrth drefn Lloegr i raddau helaeth, yw'r ffordd fwyaf addas ymlaen i gefnogi myfyrwyr. Rhoddir argymhellion allweddol yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn.

## 7. Argymhellion

*Argymhellion i Lywodraeth Cymru*

7.1 Mae'r drefn sy'n gweithredu yng Nghymru yn rhagori ar yr un yn Lloegr. Mae model Cymru'n helpu myfyrwyr i gael at y cymorth mae arnynt ei angen gan ddarparwyr lleol. Rhoddir y tri argymhelliad nesaf fel ffordd o ddiogelu manteision y model presennol.

7.2 **Argymhelliad Un**: Dylai Llywodraeth Cymru wrthsefyll yr ymlediad o ganolfannau asesu anghenion a chanolfannau allgyrraedd sydd wedi digwydd yn Lloegr trwy ailfodelu'r system bresennol ar batrwm model yr Alban. Dylid cysylltu canolfannau asesu anghenion â darparwyr addysg uwch a helpu myfyrwyr sy'n ceisio am le yn y sefydliad addysg uwch hwnnw ac sydd â hawl i Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl. Bydd hyn yn cyfyngu ar fasnacheiddio asesiadau a bydd yn helpu sicrhau bod aseswyr yn ystyried amgylchedd dysgu'r myfyriwr ac wrth gwrs y gofynion arno. Lle nad yw darparwyr addysg uwch (gan gynnwys y Brifysgol Agored) yn cynnal canolfan asesu, dylid eu hannog i wneud hynny a hyrwyddo eu gwasanaethau i fyfyrwyr israddedig newydd.

7.3 **Argymhelliad Dau**: Er mwyn lleihau'r effaith posibl ar y graddau y bydd darparwyr cymorth anfeddygol ar gael, dylai Llywodraeth Cymru ymwrthod rhag mabwysiadu gofynion proffesiynol Adran Addysg Lloegr[5] ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn sefydliadau addysg uwch Cymru. Dylai darparwyr addysg uwch fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

7.4 **Argymhelliad Tri**: Er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr Cymru'n dioddef o ddiffyg cymorth, dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cyllid ar gyfer y Lwfansau i fyfyrwyr unigol lle mae aseswyr anghenion wedi dangos tystiolaeth o angen. Dylai hyn gynnwys cyllid Band Un a Band Dau. Dylai unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch ariannu'r Lwfansau ystyried tystiolaeth o gynnydd darparwyr addysg uwch Cymru gyda'u harferion dysgu cynhwysol. Dylid annog darparwyr addysg uwch i rannu arferion effeithiol gan gynnwys gyda darparwyr addysg uwch yn Lloegr sydd wedi gwella strategaethau ac addasu cymorth.

7.5 I wella mynediad at gymorth ac i sicrhau bod y Lwfansau yn diwallu anghenion myfyrwyr ag anghenion mwy dwys, cynigir y tri argymhelliad canlynol.

7.6 **Argymhelliad Pedwar**: I annog myfyrwyr ag anableddau i ddilyn addysg uwch a phontio'n rhwydd o ysgolion a cholegau, dylai arweinydd polisi'r Lwfansau gyd-drafod ag arweinwyr polisi addysg cyn-16 ac ôl-16 i godi ymwybyddiaeth o'r Lwfansau ymhlith disgyblion ag angen a gydnabuwyd yn yr ysgol.

7.7 **Argymhelliad Pump**: I wella effeithlonrwydd o fewn y system a mynediad at gymorth, dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo Cyllid Myfyrwyr Cymru i rannu'r llythyr cymhwysedd a'r llythyr hawl gyda gwasanaethau anabledd y darparwr addysg uwch a

[5] Wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan grŵp sicrhau ansawdd DSA

ddylai allu cydgysylltu â darparwyr gwasanaethau ar ran myfyrwyr ag anableddau. Dylai myfyrwyr nad ydynt yn dymuno rhannu'r wybodaeth hon gael y dewis i eithrio.

7.8 **Argymhelliad Chwech**: Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fyfyriwr o dan anfantais, dylai Llywodraeth Cymru adolygu perthnasedd cael uchafswm o hawl am ddarpariaeth cymorth anfeddygol i'r myfyrwyr hynny sydd â rhai anableddau nad yw'r uchafswm yn ddigonol iddynt. [Cyfran fach yn unig o gyfanswm yr hawl y mae'r mwyafrif o fyfyrwyr yn ei ddefnyddio.]

*Argymhellion i Gyllid Myfyrwyr Cymru*

7.9 **Argymhelliad Saith**: I wella'r broses o ymgeisio am y Lwfansau, dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru adolygu hygyrchedd y broses ymgeisio ac ystyried gwelliannau, gan gynnwys y defnydd o diwtorial/sleidiau i fynd ag ymgeiswyr o fynd trwy'r broses o ymgeisio am y Lwfansau a darparu llwyfan ar-lein yn dangos cynnydd trwy'r broses i fyfyrwyr a'r cynghorwyr anabledd sy'n eu cefnogi.

7.10 **Argymhelliad Wyth**: Er mwyn sicrhau bod cymorth y Lwfansau yn cael ei dargedu'n effeithiol, dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru ddarparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru o'r boblogaeth o fyfyrwyr â hawliau am y Lwfansau a faint sy'n derbyn y cymorth. Byddai hyn yn dangos a yw'r system sydd ar waith ar hyn o bryd yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion Llywodraeth Cymru a myfyrwyr.

7.11 **Argymhelliad Naw:** Er mwyn gwella hyder yn y system, dylai Llywodraeth Cymru a Cyllid Myfyrwyr Cymru adolygu rhesymau dros geisiadau sy'n cael eu dal yn ôl a darparu'r wybodaeth hon i ddarparwyr addysg uwch i helpu deall achosion yr oedi mewn ceisiadau.

Awduron yr Adroddiad: Louise Starks ac Amy Woolger

Adroddiad Llawn o'r Ymchwil: Starks, L. a Woolger, A. (2017), York Consulting LLP. Adolygiad o Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth adroddiad rhif 68/2017
Ar gael ar: http://gov.wales/statistics-and-research/review-disabled-students-allowances/?lang=cy

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Heledd Jenkins
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6255
Ebost: heledd.jenkins2@llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-886-6